



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Glastir

Glastir Creu Coetir 2015
Llyfryn Rheolau Cynllun

Fersiwn 1 Mehefin 2015
Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020



CYNNWYS

Prif Negeseuon	<u>5</u>
Adran A – Cyflwyniad	<u>7</u>
Adran B – Pwy sy'n Gymwys	<u>8</u>
• Pa dir sy'n gymwys	
• Ffynonellau ariannu eraill	<u>8</u>
• Cod Carbon Coetiroedd	<u>8</u>
Adran C – Grantiau Creu Coetir Glastir	<u>10</u>
• Gwaith Cyfalaf	<u>10</u>
• Grant Amaeth-Goedwigaeth	<u>10</u>
• Tabl 1 Categori o Goetir, y Manylebau a Chyfraddau Grant	<u>12</u>
• Taliad Premiwm	<u>14</u>
• Taliad Cynnal	<u>14</u>
• Yr arwynebedd lleiaf ar gyfer y gwaith plannu newydd	<u>14</u>
• Cadw Stoc Allan	<u>15</u>
• Llennyrch	<u>15</u>
• Coed a llwyni sy'n bod eisoes	<u>16</u>
Adran D – Sut i Wneud Cais	<u>17</u>
• Mynegi Diddordeb	<u>17</u>
• Dewis	<u>18</u>
• Cyflwyno cais – proses y Cynllun Rheoli Creu Coetir	<u>18</u>
• Ymgynghori	<u>19</u>
• Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)	<u>19</u>
• Cyflwyno'ch Cynllun Rheoli Creu Coetir a dogfennau ategol	<u>20</u>
• Asesu'ch Cynllun Rheoli Creu Coetir	<u>20</u>
• Cynnig Contract	<u>20</u>
• Dechrau ar y Gwaith	<u>20</u>
• Hawlio Taliad	<u>21</u>
• Llacio Rheolau	<u>21</u>

Adran E – Newid y Contract	<u>22</u>
• Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Contract	<u>22</u>
• Newidiadau i'r Tir	<u>22</u>
• Newidiadau i Reolau'r Cynllun	<u>23</u>
Adran F – Archwiliadau a Chofnodion	<u>24</u>
• Archwilio	<u>24</u>
• Cadw Cofnodion	<u>24</u>
Adran G – Cosbau	<u>25</u>
• Tanddatgan	<u>25</u>
• Gorddatgan	<u>25</u>
• Torri'r Contract	<u>25</u>
• Cosbau'r Gwaith Cyfalaf	<u>25</u>
• Torri'r safonau Trawsgydymffurfio	<u>26</u>
Adran H – Y Drefn Apelio	<u>27</u>
• Y Drefn Gwynion	<u>27</u>
Adran I – Deddf Diogelu Data 1998	<u>28</u>
• Rhesymau dros Rannu Data Personol	<u>28</u>
• Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth	<u>29</u>
• Hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998	<u>29</u>
Adran J – Manylion Cysylltu	<u>31</u>

Prif Negeseuon

- Mae'r cynllun hwn yn neilltuo cymorth ariannol ar gyfer cynnal gwaith plannu a ffensio newydd ac weithiau, o dan rai amgylchiadau, telir taliadau premiwm a chynnal blynyddol.
- Mae cymorth ariannol ar gael hefyd ar gyfer plannu coed ar dir sy'n parhau i gael ei bori fel rhan o system Amaeth-Goedwigaeth h.y. sy'n cyfuno amaethyddiaeth a choedwigaeth. Gweler Adran C am y manylion llawn.
- Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i blannu coed ar dir rydych wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu'n amaethyddol arno o dan y Cynllun Creu Coetir Glastir a hawlio'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) arno **cyn belled** ag y cafodd y tir hwnnw ei ddefnyddio i hawlio Cynllun Taliad Sengl (SPS) yn 2008 a'ch bod yn derbyn taliadau cynnal a phremiwm Creu Coetir.
- Mae'n bosibl y bydd cae y plannwyd coed gwasgaredig arno o dan y system Amaeth-Goedwigaeth yn parhau i fod yn gymwys am y Taliad Sylfaenol. Bydd angen tynnu arwynebedd y coed yn unol â rheolau'r BPS.
- Mae ffurflen mynegi diddordeb Creu Coetir Glastir yn ffurflen ddigidol a rhaid ei llenwi ar wasanaeth RPW Ar-lein. Bydd angen Cyfeirnod Cwsmer (CRN) arnoch a Chod Defnyddio RPW Ar-lein i'w llenwi. Am ragor o wybodaeth am Fynegi Diddordeb, ewch i Adran D y llyfryn hwn.
- Bydd y cyfnod ar gyfer Mynegi Diddordeb yn dod i ben **ganol nos 17 Gorffennaf 2015**.
- Dylech ddarllen y Llyfryn hwn a'r Canllaw Sut i Lenwi cyn mynegi diddordeb ar-lein.
- Gofalwch eich bod yn gallu bodloni holl amodau'r Cynllun am oes eich contract (gweler adran C am fanylion). Mae'r contract fel arfer yn para 13 blynedd (1 flwyddyn ar gyfer plannu'r coed a 12 mlynedd i gynnal y coed).
- Ar ôl y gwaith plannu, mae'n bosibl y cewch hawlio'r taliadau cynnal a phremiwm 12 mlynedd. Mae taliadau cynnal 5 mlynedd ar gael o dan y system Amaeth-Goedwigaeth.
- Bydd yn rhaid ichi lunio cynllun rheoli Creu Coetir fydd yn gorfod bodloni Safon Goedwigaeth y DU. Mae grant ar gael i baratoi'r cynllun rheoli cyn belled â bod y cynllun yn cael ei gymeradwyo. Rhaid defnyddio cynlluniwr coetir i gynhyrchu cynllun rheoli Creu Coetir. Rhoddir rhestr o gynllunwyr coetir ichi os bydd eich Mynegiant o Ddiddordeb yn llwyddiannus.
- Rhaid plannu o leiaf 0.25ha o dir a rhaid i floc unigol fod o leiaf 0.1 ha. Gweler Adran C am y manylion.

- Gan ddibynnu ar y sefyllfa ariannol, bydd sawl cyfle i Fynegi Diddordeb yn ystod cyfnod Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.
- Caiff manylion cyfnodau Mynegi Diddordeb eu cyhoeddi ar RPW Ar-lein, ar Gwlad ar-lein (www.gwladarlein.org) ac ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru)

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

1. Mae grantiau sy'n cael eu rhoi o dan y cynllun hwn yn gymorth sy'n dod o fewn cwmpas fframweithiau Cymorth gwladwriaethol. Mae Erthyglau 107, 108 a 109 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) yn berthnasol i'r gymorth a roddir ar gyfer datblygiad gwledig o dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (ref: SA 43466).
2. O'r 01 Gorffennaf 2016 ymlaen, bydd gofynion Tryloywder Cymorth Gwladwriaethol, a nodir yn Erthygl 9 Rheoliad y Comisiwn 702/2014 wedi dyddio 25 Mehefin 2014 sydd yn datgan rhai categorïau o gymorth yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth mewn ardaloedd cefn gwlad gydnaws a'r farchnad fewnol yn gweithredu Erthygl 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn gofyn i bob gwobr o gymorth unigol (am Amaeth) sydd yn uwch na'r trothwy o €500,000 i gael ei adroddi yn uniongyrchol i'r Comisiwn Ewropeaidd pob 6 mis. Bydd y wybodaeth yma'n cael ei gyhoeddi drwy Wefannau Tryloywder Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd.
3. Mae grant a ddarparir o dan yr opsiynau canlynol y cynllun yn gymorth ufudd oherwydd ei fod yn parchu'r amodau a amlinellir yn Erthygl 32, 33 a 35 o Rheoliad y Comisiwn 702/2014 (Rheoliadau Eithriadau Bloc Amaethyddol)
 - Coetir Cymysg Gwell, Opsiwn 803 Glastir
 - Coetir Brodorol - Bioamrywiaeth, Opsiwn 801 Glastir
 - Coetir Brodorol – Carbon, Opsiwn 802 Glastir
 - Amaeth-Goedwigaeth - Coed Gwasgaredig Opsiwn 804 Glastir
 - Ffensio – Opsiwn 595 Glastir
 - Grant Cynllun Creu Coetir

Adran A – Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn wedi'i baratoi ar gyfer rheolwyr tir, gan gynnwys ffermwyr, sy'n bwriadu Mynegi Diddordeb i gymryd rhan yng Nghynllun Creu Coetir Glastir ar gyfer gwaith i'w gwblhau erbyn **31 Mawrth 2016**. Nid yw'r manylion yn y llyfryn hwn yn gynhwysfawr a gallai newid.

Mae'r cynllun yn cefnogi ymrwymiad Strategaeth Coetiroedd Llywodraeth Cymru, Coetir i Gymru, i ehangu coetiroedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i blannu mwy o goed yng Nghymru trwy Gynllun Creu Coetir Glastir er mwyn sicrhau amrywiaeth eang o fanteision:-

- Cysgod i stoc ac adeiladau adeg tywydd mawr
- Rheoli symudiadau da byw trwy ffensio a phlannu manau anhygyrch fel llethrau serth
- Tyfu cyflenwad cynaliadwy o bren a choed tân e.e. ar gyfer adeiladau a ffensys
- Creu cynefinoedd natur
- Lleihau'r perygl o lifogydd ym mhen isa afonydd a rhwystro pridd rhag cael ei olchi i gyrsiau dŵr
- Sgrinio llygredd sŵn e.e. o ffyrdd a rheilffyrdd

Bydd angen ichi ofyn am help Cynlluniwr Rheoli i baratoi cynllun rheoli Creu Coetir sy'n cydymffurfio â Safon Goedwigoedd y DU. Bydd y cynllun yn esbonio'ch amcanion wrth greu coetir a sut y bydd y coetir yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru ac yn rhoi gwerth ei harian iddi.

Mae Cynllun Creu Coetir Glastir yn cynnig cyfleoedd newydd i sefydlu systemau amaeth-goedwigaeth. Gweler Adran C am fanylion.

Serch hynny, os ydych yn dewis opsiynau newydd fel amaeth-goedwigaeth, mae'n bwysig eich bod yn dangos ar eich cynllun rheoli Creu Coetir sut ydych yn bwriadu cyflwyno'r system er lles eich fferm. Yn arbennig, ni allwn gefnogi cynllun amaeth-goedwigaeth oni bai bod gennych fwriad clir i gynnal system tymor hir, i barhau i integreiddio gwaith amaethyddol a choedwigaeth a pharhau i bori'r tir am oes y contract.

Noddir cynllun Creu Coetir Glastir ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

Rheolir Cynllun Creu Coetir Glastir gan Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 OS rhif 3222 (cy.327) sy'n gymwys i Raglenni Datblygu Gwledig, Rheoliadau'r Cyngor (EU) rhif 1305/2013, 1303/2013 ac (EU) rhif 1306/2013, Rheoliad y Comisiwn (EU) rhif 808/2014 ac (EU) rhif 809/2014 a Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 640/2014 ac 807/2014 (fel y'u diwygir o dro i dro). Ceir copïau o'r Rheoliadau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru neu gallwch ofyn i Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru am gopïau.

Adran B – Pwy sy'n gymwys

I fod yn gymwys am Gynllun Creu Coetir Glastir, rhaid:-

- Eich bod wedi cofrestru fel cwsmer gyda Taliadau Gwledig Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN). Byddwch wedi cofrestru'ch tir ar System Adnabod Parseli (LPIS) Taliadau Gwledig Cymru. Nid oes yn rhaid ichi fod yn ffermwr i wneud hyn.
- Bod gennych o leiaf 0.25 hectar o dir cymwys.
- Mai dim ond chi sy'n hawlio cynlluniau Cymorth Ewropeaidd (e.e. Cynllun Taliad Sylfaenol a Glastir) ar y tir.
- Bod gennych reolaeth lwyr ar y tir am oes y contract a thros gyfnod yr ymrwymiad.
- Eich bod yn berchen ar dir preifat neu gyhoeddus, yn gyngor neu'n gymdeithas, gan gynnwys grŵp cymunedol sy'n plannu ar dir cyhoeddus.

Pa dir sy'n gymwys

I fod yn gymwys am Contract Creu Coetir Glastir, rhaid i'r tir fodloni'r amodau canlynol:

- Bydd yn gaeau sy'n 0.1ha neu fwy o faint, y cyfan yng Nghymru. Pwysig: nid yw'r gair cae yn golygu fod yn rhaid iddo fod yn dir amaethyddol.
- Nid yw'n goetir.
- Ni chaiff ei ddefnyddio yn ystod oes y contract creu coetir i dyfu coed Nadolig na chnwd biomas cylchdro byr. Mae cylchdro byr yn golygu llai nag 8 mlynedd.
- Os ydych yn dewis yr opsiwn amaeth-goedwigaeth, rhaid parhau i bori'r tir am oes y contract a'r ymrwymiad.
- Bydd pob corff perthnasol e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW wedi rhoi caniatâd i blannu ar safleoedd dynodedig yn unol â Safon Goedwigoedd y DU.

Ffynonellau ariannu eraill

Os ydych yn cael taliad o le arall ar gyfer y gwaith y mae Cynllun Creu Coetir Glastir hefyd yn eich talu amdano, mae hynny'n golygu'ch bod yn cael eich talu ddwywaith. Cofiwch daliadau oddi wrth y Gronfa Natur.

Cofiwch hefyd mai'ch cyfrifoldeb chi yw gofalu nad yw'ch Contract Creu Coetir Glastir yn gorgyffwrdd â chytundebau eraill ac nad oes gwrthdaro rhwng eu gofynion. Os gwelir eich bod neu'ch bod wedi cael arian o le arall i gynnal ymrwymadau Creu Coetir Glastir, gallech gael cosb ariannol, gorfod talu'r arian yn ôl ac o bosibl dod â'r Contract i ben.

Cod Carbon Coetiroedd

Trwy blannu coed, cymerir carbon deuocsid o'r awyrgylch. Mae Cod Carbon Coetiroedd yn eich annog i fasnachu carbon a gallai'r coed a blennir o dan Gynllun Creu Coetir Glastir fod

yn gymwys fel prosiect carbon coetiroedd. O dan y cod carbon coetiroedd, rhaid i'r rheini sy'n rhestru unedau carbon coetiroedd ar gyfer eu masnachu ddangos bod yr arian carbon y gofynnir amdano yn arian ychwanegol angenrheidiol ar gyfer y prosiect creu coetir. Mae'r prawf "arian ychwanegol" hwn yn sicrhau nad ydych yn cael eich talu ddwywaith a chyn belled â'ch bod wedi bodloni'r prawf, nid oes perygl o ariannu dwbl.

Rhaid i bob prosiect sy'n dewis opsiwn Coetir Brodorol – Carbon Glastir gofrestru ei gynnig gyda'r Cod Carbon Coetiroedd. Rhaid ichi wneud hyn cyn ichi hawlio am y tro cyntaf. Cewch fwy o wybodaeth yn www.forestry.gov.uk/carboncode. Cofrestru gyda'r cod yw'r cam cyntaf ar gyfer dilysu'r unedau carbon coetiroedd a gynhrychir gan eich prosiect. Mae'r cam cyntaf hwn yn golygu cyfrif faint o garbon y bydd y prosiect yn ei 'ddal' dros oes y prosiect.

Adran C – Grantiau Creu Coetir Glastir

Gwaith Cyfalaf

Os cewch chi eich dewis ar gyfer Cynllun Creu Coetir Glastir, bydd gofyn ichi baratoi Cynllun Rheoli sy'n cydymffurfio â Safon Goedwigoedd y DU ([Comisiwn Coedwigaeth – Safon a Chanllawiau Coedwigaeth y DU](#)). Ar ôl i'ch cynllun rheoli gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, gallwch gynnwys yr eitemau Gwaith Cyfalaf cymwys sydd wedi'u rhestru arno yn eich Contract Creu Coetir Glastir. Mae'r adran hon yn trafod yr eitemau gwaith cyfalaf a'r taliadau cynnal a phremiwm sydd ar gael o dan y Cynllun Creu Coetir.

- Grantiau sefydlu i blannu coed. Bydd deiliad y contract yn hawlio'r grant ar ôl plannu'r coed. Gweler Tabl 1 am fanylion y categorïau o goetir a'r grantiau.
- Grant ffensio o £3.48/metr cyn belled â'ch bod yn bodloni manylebau technegol Glastir ar gyfer ffensys. Bydd y ffens yn cadw da byw allan o'r tir sydd newydd ei blannu â choed. Gallwch gryfhau'r ffens i gadw ceirw a gwingod allan. Chi fydd yn gorfod talu am hynny ond rhaid iddi fod yn ychwanegol at y ffens stoc safonol.
- Pwysig: Mae'n bosibl y bydd tir y plannwyd coed arno trwy Gynllun Creu Coetir Glastir yn gymwys am y Taliad Sylfaenol (BPS) am oes y contract cyn belled ag y cafodd y tir ei ddefnyddio yn 2008 i hawlio'r Taliad Sengl (SPS) a'ch bod yn derbyn taliadau cynnal a phremiwm y Cynllun Creu Coetir. Rhaid defnyddio codau cnydau penodol wrth hawlio BPS o dan yr amgylchiadau hyn. Darllenwch lyfr rheolau'r SAF am y manylion llawn. Bydd ond yn gymwys am y BPS tra bo'r tir yn parhau mewn cynllun amaeth-amgylcheddol a'ch bod yn derbyn y taliadau cynnal a phremiwm.

Grant Amaeth-Goedwigaeth

- Ffordd integredig o reoli tir yw amaeth-goedwigaeth, gyda'r coed a'r ffermio yn cyd-fodoli i roi manteision lu.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig amrywiaeth hyblyg o opsiynau ar gyfer cynnal coetiroedd fferm. Mae'r Cynllun Creu Coetir Glastir yn gam cyntaf trwy roi'r hyblygrwydd ichi, wrth ddylunio coetir, i allu creu stribedi cysgodi a grwpiau o goed mor fach â 0.1ha mewn bloc unigol. Rydym yn ategu hyn trwy gynnig opsiwn amaeth-goedwigaeth ar y ffurflen Mynegi Diddordeb. Mae'r opsiwn yn caniatáu ichi blannu 80 o goed gwasgaredig yr hectar ar dir pori parhaol sy'n cael ei bori at lefel stocio sydd o leia'n nodweddiadol o'r tir dan sylw am oes y contract. Pennir y lefelau stocio yn eich contract. Mae hyn yn gyson â'n cynllun i gyflwyno Coetiroedd Glastir fesul cam. Efallai y caiff opsiynau ychwanegol eu cyflwyno yn y dyfodol os cawn brofiadau da gyda'r opsiwn hwn.

- Os ydych yn gwneud cais am grant amaeth-goedwigaeth, bydd angen ichi brofi trwy'ch cynllun rheoli Creu Coetir bod eich cynnig yn un da, a'i fod wedi'i integreiddio i'ch busnes ffermio am y tymor hir.
- Gweler Tabl 1 i weld manylion y grant Amaeth-Goedwigaeth. Rhaid i'r tir fod yn dir pori parhaol a rhaid parhau i'w bori. Cewch gynaeafu silwair neu wair ar y tir. Diben yr opsiwn amaeth-goedwigaeth yw'ch helpu i sefydlu system amaethyddol newydd – nid grant plannu coed yn unig mohono.
- Mae'r grant yn talu am y gwaith plannu, am ffensio, am amddiffyn y nifer gofynnol o goed unigol ac am ofalu amdany'n nhw tan iddynt gydio ond gan gynnal gweithgarwch ffermio ar y tir yr un pryd am oes y contract.
- Ni thelir taliad premiwm ar y tiroedd hyn gan y byddwch yn parhau i gynhyrchu cynnyrch amaethyddol arnynt a bod gofyn i'r coed ymsefydlu fel system amaeth-goedwigaeth o fewn pum mlynedd ar ôl eu plannu.
- Rhaid cadw'r tir o dan system amaeth-goedwigaeth am bum mlynedd ar ôl blwyddyn sefydlu'r coed.
- Bydd gofyn ichi gadw dyddiadur stocio i gofnodi'r lefelau pori bob blwyddyn.
- Bydd disgwyl i'r tir sy'n cael ei blannu o dan y Mesurau Amaeth-Goedwigaeth fodloni'r rheolau trawsgydymffurfio. Mae hynny'n cynnwys cadw'r tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da. Gallech gael eich cosbi am dorri'r safonau.

Os ydych yn plannu coed ar wasgar ar gae o dan y mesur Amaeth-Goedwigaeth, bydd y cae hwnnw'n dal i fod yn gymwys am Daliad Sylfaenol, ond rhaid tynnu arwynebedd y coed sydd wedi'u ffensio o arwynebedd y cae a chyn belled â bod llai na 100 o goed gwasgaredig, gan gynnwys y coed oedd yno eisoes, yn y cae. Darllenwch lyfryn rheolau'r SAF i weld sut mae asesu caeau â choed.

TABL 1 CATEGORI O GOETIR, Y MANYLEBAU A CHYFRADDAU GRANT CYNLLUN CREU COETIR GLASTIR

Categori o Goetir	Rhif Gwaith Cyfalaf Glastir	Manylebau	Taliad plannu newydd £ yr ha	Taliad Cynnal Blynyddol £ yr ha	Taliad Premiwm Blynyddol £ yr ha
Coetir Cymysg Gwell	803	<ul style="list-style-type: none"> O leiaf 5 prif rywogaeth (o leiaf 10% o bob un) O leiaf 25% yn goed llydanddail, g.g. llwyni prenaidd Llwyni prenaidd ddim yn fwy na 10% Dim un rhywogaeth unigol yn fwy na 50% Dwysedd stocio 2,500/ha 	3,600	60 (Blynyddoedd 2-12)	350
Coetir Brodorol - Carbon	802	<ul style="list-style-type: none"> Cymysgedd o rywogaethau brodorol Stoc plannu o darddiad addas* Caniateir hyd at 20% o lwyni prenaidd Dwysedd stocio 2,500/ha <p>Rhaid ichi gofrestru'ch cynllun plannu newydd gyda'r Cod Carbon Coetiroedd.</p>	4,500	60 (Blynyddoedd 2-12)	350
Coetir Brodorol – Bioamrywiaeth	801	<ul style="list-style-type: none"> Rhywogaethau brodorol – dylai'r cymysgedd fod yn frodorol i'r safle a dylid cadw at Gynllun Gweithredu'r Cynefin (coed deri'r ucheldir, gelltydd collddail cymysg yr iseldir), ond efallai y bydd amodau lleol yn gofyn yn wahanol. Stoc plannu o darddiad addas* Caniateir hyd at 20% o lwyni prenaidd Gwasgariad clystyrog – bylchau rhyngddynt yn amrywio Dwysedd stocio 1,600/ha 	3,000	60 (Blynyddoedd 2-12)	350
Amaeth-Goedwigaeth – coed gwasgaredig	804	<ul style="list-style-type: none"> 80 o goed yr hectar Ddim yn gymwys am grant ffensio Ddim yn gymwys am y taliad Premiwm 	1,600	30 (Blynyddoedd 2-6)	N/A
Ffensio	595	Ffens postyn a weiren a netin ar gyfer stoc	3.48/metr		

Nodiadau ynghylch Tabl 1

- Rhaid dewis coed sy'n addas i amodau'r safle. Peidiwch â phlannu coed llarwydd neu goed eraill sy'n cael eu bygwth gan glefyd.
- Mae gwaith ymchwil yn dangos nad yw'r ffaith bod y coed o darddiad lleol yn golygu o reidrwydd eu bod yn gallu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid. Mae canllawiau'n cael eu datblygu i gynyddu'r amrywiaeth enetig o fewn rhywogaeth.
- Ni ddylai mwy na 10% o'r coed ar lan afon fod yn goed gwern, hynny am eu bod yn cyfrannu at asideiddio trwy gloi nitrogen a rhyddhau nitradau.
- Bydd canllawiau plannu coed newydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru

Taliad Premiwm

Taliad arwynebedd yw'r Taliad Premiwm. Ei fwriad yw digolledu ffermwyr am yr incwm maen nhw'n ei golli wrth rwystro stoc rhag mynd ar dir amaethyddol. Mae taliad o £350/ha ar gael am 12 mlynedd. Nid yw ar gael o dan y system Amaeth-Goedwigaeth.

I gael Taliad Premiwm, rhaid cyflwyno Ffurflen Cais Sengl ar-lein bob blwyddyn trwy RPW Ar-lein a hawlio ar bob cae cymwys sydd yn eich contract.

Taliad Cynnal

Taliad i ofalu am y coed newydd am 12 mlynedd y contract yw'r Taliad Cynnal. Mae taliad o £60/ha ar gael am 12 mlynedd. Cynigir y taliad am 5 mlynedd o dan y system Amaeth-Goedwigaeth ond nid oes modd ei dalu ar gyfer tir cyhoeddus. Mae Cynnal yn cynnwys chwynnu, plannu coed newydd yn lle'r rhai sy'n marw ac archwilio'r coed yn rheolaidd. Bydd angen ichi gadw dyddiadur gwaith i gofnodi'r gwaith cynnal rydych yn ei wneud bob blwyddyn.

Rydym yn disgwyl ichi gynnal y coed rydych wedi'u plannu yn unol â'r arferion cyffredin a chynaliadwy ar gyfer rheoli coed. Rhaid amddiffyn y coed rhag difrod, gan gynnwys difrod gan chwyn, pryfed ac anifeiliaid pori fel cwingod, ysgyfarnogod a defaid. Bydd disgwyl ichi chwynnu'n achlysurol a phlannu coed newydd yn lle coed marw. Pan fyddwn yn archwilio'ch coed, byddwn yn disgwyl gweld eu bod wedi cydio'n briodol. Dylent gynyddu'n rhesymol yn eu huchder bob blwyddyn fel eu bod 5 – 6 troedfedd (1.5 – 1.8m) o daldra neu fwy erbyn eu bod yn 5 oed. Ni ddylai fod yna chwyn o gwmpas bôn y goeden – yn enwedig yn ei blynnyddoedd cyntaf, a dylai fod o liw (gwyrdd) iach â thyfiant brwd arni. Ni ddylai fod olion pori arni nag olion bod da byw wedi bod yn pori ar dir di-stoc. Dylech blannu coed newydd yn lle'r rhai sy'n methu. Cewch gyngor ar sut i ofalu am eich coed ar wefan Llywodraeth Cymru a chan wasanaeth Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru a chewch gyngor ar baratoi cynllun gan eich Cynlluniwr Rheoli Coetir

Yr arwynebedd lleiaf ar gyfer y gwaith plannu newydd

- Rhaid i'r llain ar gyfer plannu coed newydd fod o leiaf 0.25ha o faint, ac ni ddylai'r un bloc o goed fod yn llai na 0.1ha.
- Nid oes lled lleiaf ond rhaid ffensio'r coed a'u hamddiffyn rhag porwyr a rhaid i ddyluniad y coetir fod yn gyson â'r Safon Goedwigaeth.
- Caiff y safle o goed newydd fod mor fawr ag yr hoffech iddo fod.

Cadw stoc allan

Os yw'n ofyn cadw stoc allan, rhaid gofalu nad oes stoc ar safle'r coed newydd am oes eich contract Creu Coetir Glastir.

Llennyrch

Os oes gennych ddarnau agored gwasgarog o dir, heb eu plannu na'u mapio (llai na 0.1ha) ar eich safle plannu, cyn belled nad ydynt yn fwy na 15% o'i arwynebedd, cewch eu cynnwys. Os yw'r llennyrch hynny'n fwy na 0.1ha o faint, rhaid eu mapio a pheidio â'u cynnwys wrth gyfrif arwynebedd eich safle ond rhaid eu nodi ar eich cynllun rheoli Creu Coetir. Bydd gofyn ichi blannu'r coed yn dynnach at ei gilydd mewn ambell fan i wneud i fyny am y darnau sydd heb eu plannu ac i sicrhau'ch bod yn plannu'r nifer gofynnol o goed yn unol â'ch contract (gweler Tabl 2).

**Tabl 2 – Bylchau rhwng coed yn ôl y ganran sy'n llennyrch
Dwysedd stocio o 2,500 o gyffion yr hectar (Cymysgedd brodorol Carbon a choetir
cymysg gwell)**

% yn llennyrch	Bylchau m x m	Cyffion/ha yn yr arwynebedd net
0%	2.00	2,500
5%	1.95	2,631
10%	1.90	2,777
15%	1.84	2,941

**Tabl 3 Dwysedd stocio o 1,600 o gyffion yr hectar (Coetir Brodorol –
Bioamrywiaeth)**

% o dir agored	Bylchau m x m	Cyffion/ha yn yr arwynebedd net
0%	2.50	1600
5%	2.44	1684
10%	2.37	1778
15%	2.30	1882

Coed a llwyni sy'n bod eisoes

Mae gwerth amgylcheddol mawr i'r coed a'r llwyni sydd eisoes yn tyfu ar y safle ac ni ddylech eu clirio ar gyfer plannu coed newydd ond dylech eu hymgorffori yn eich cynllun plannu. Bydd angen ichi fapio coed gwasgaredig fel y llennyrch os oes mwy na 0.1ha.

Adran D – Sut i wneud Cais

Mynegi Diddordeb

Mae ffurflen Mynegi Diddordeb Creu Coetir Glastir ar RPW Ar-lein.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen fel asiant ar ran cleient, bydd gofyn ichi gofrestru fel asiant Taliadau Gwledig Cymru. Os nad ydych wedi gwneud hyn eto, rydym yn eich cynghori i lenwi'r ffurflen Manylion Cwsmeriaid ar gyfer Asiantwyr/Undebau Ffermwr a'i dychwelyd atom ar unwaith. Cewch gopi o'r ffurflen ar www.llyw.cymru/RPWArlein. Pan gyrhaeddith y ffurflen, byddwn yn anfon Cyfeirnod Asiant (CRN Asiant) a Chod Defnyddio RPW Ar-lein atoch. Bydd angen ichi hefyd lenwi'r Ffurflen Ganiatâd i Gymdeithasau i gytuno ar eich rolau gyda'ch cleient. Mae'r ffurflen hon ar gael ar www.llyw.cymru/RPWArlein

Os ydych yn llenwi'r ffurflen eich hun ac nad oes gennych CRN neu God Defnyddio RPW Ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 **ar unwaith**.

Os ydych eisoes wedi cofrestru gydag RPW Ar-lein, ewch at eich ffurflen Mynegi Diddordeb Creu Coetir Glastir trwy'r sgrin 'Ceisiadau a Hawliadau'.

Cofiwch bod yr amser i Fynegi Diddordeb yng Nghynllun Creu Coetir Glastir yn dod i ben **hanner nos, 17 Gorffennaf 2015**.

Mae copi o'r canllaw ar sut i Fynegi Diddordeb ar-lein yng nghynllun Creu Coetir Glastir yn www.llyw.cymru/RPWArlein. Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen Mynegi Diddordeb ar-lein neu os nad ydych yn gallu ei llenwi ar-lein, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid **cyn gynted ag y medrwch** i drafod y cymorth digidol sydd ar gael ichi.

Dewis

Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio gwybodaeth ddaearyddol i roi sgôr i bob ymgeisydd sy'n Mynegi Diddordeb. Bydd y sgôr yn seiliedig ar ffiniau'r caeau rydych wedi'u cynnwys yn eich ffurflen Mynegi Diddordeb. Y rheswm am hyn yw am na ellir penderfynu'n derfynol ar ddiwyg a dyluniad y coetir tan i'r cynllun rheoli gael ei lunio yn ddiweddarach yn y broses. Caiff pob cae ei asesu yn ôl nifer o haenau mapio sy'n cynrychioli'r cyfleoedd a ddaw yn sgil creu'r coetir. Bydd map pdf yn dangos y sgôr posibl o greu coetir ar gael ar-lein. Caiff yr haenau sgorio eu newid o dro i dro i adlewyrchu unrhyw wybodaeth newydd a geir am y cyfleoedd i greu coetir ac wrth gaboli'r dystiolaeth y mae'r haenau'n seiliedig arni.

Caiff manylion y ffurflenni mynegi diddordeb eu cyhoeddi yn Gwlad Ar-lein (www.gwladarlein.org) ac ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru) Dylech fynd i'r gwefannau hyn yn aml a darllen yr wybodaeth arnyn nhw ar y cyd â chynnwys y llyfryn hwn.

Cyflwyno cais – proses y cynllun rheoli

Ar ôl gorffen y broses ddewis, anfonir llythyr atoch i ddweud a ydych wedi cael eich dewis ar gyfer y rownd cynllun rheoli neu beidio. Mae'n bosibl y cewch eich rhoi ar y rhestr wrth gefn. Os nad yw eich Mynegiant o Ddiddordeb wedi llwyddo, cewch lythyr trwy'ch cyfrif RPW ar lein yn egluro'r rhesymau pam.

Bydd gofyn ichi ddewis cynlluniwr coetir o'r rhestr o gynllunwyr cymeradwy i baratoi cynllun rheoli Creu Coetir. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig grant ar gyfer y gwasanaeth hwn, cyn belled â bod y cynllun rheoli yn cael ei gymeradwyo. Bydd y cynlluniwr coetir yn llunio'r cynllun rheoli fydd yn disgrifio'r broses ar gyfer asesu, cynllunio a chreu coetir newydd, gan gynnwys system amaeth-goedwigaeth, yn unol â'r Safon Goedwigoedd y DU. Fe welwch restr o Gynllunwyr Coetiroedd cymeradwy ar (www.llyw.cymru/amgylcheddachedfngwlad) .

Byddwn yn anfon map digidol pdf atoch o'r caeau rydych wedi'u nodi ar eich Mynegiant o Ddiddordeb a chopi o dempled cynllun rheoli Creu Coetir i helpu'ch cynlluniwr coetir. Bydd templed y cynllun rheoli, y llyfryn rheolau a'r canllaw mapio i gyd ar gael ar RPW Ar-lein. Ni fyddwn yn gallu gweithio ar dempledi na mapiau eraill, felly peidiwch â'u hanfon atom. Byddwn yn gorfod eu gwrthod.

Yn ystod cyfnod y Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020), gallwch wneud cais am grant i baratoi dau gynllun rheoli Creu Coetir gan ddefnyddio'r un CRN. Rydym hefyd yn bwriadu ariannu un Plan Rheoli Coetir Glastir pan gaiff Cynllun Rheoli Coetir Glastir ei lansio.

Os oes gennych ddaliad mawr gwasgaredig o dan yr un CRN, mae'n bosibl y gallwn gytuno i dalu am gynlluniau rheoli ar gyfer ffermydd gwahanol o fewn eich daliad. Cysylltwch â Llywodraeth Cymru trwy'r Ganolfan Gyswilt i Gwsmeriaid ar 0300 0625004 neu rpwonline@wales.gsi.gov.uk i gytuno ar hyn ymlaen llaw.

Ymgynghori

Mae angen i'r cynllun rheoli Creu Coetir gydymffurfio â'r gofynion yn Safon Goedwigaeth y DU. Bydd y cynlluniwr coetir yn gorfod casglu gwybodaeth oddi wrth sefydliadau eraill ac aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys cymdogion, partïon â diddordeb a chyrff statudol, sydd â diddordeb yn y cynllun rheoli. Bydd angen mwy o ymgynghori ar gynlluniau mawr. Ni fydd Llywodraeth Cymru ei hun yn ymgynghori â thrydydd parti, rydym yn disgwyl ichi sicrhau bod y cynlluniwr coetir yn gwneud hyn ar ein rhan. Rhaid i'r cynlluniwr baratoi adroddiad am yr ymgynghoriad, fel rhan o'r cynllun rheoli Creu Coetir.

Bydd angen i'r cynlluniwr coetir ofyn i'r cyrff perthnasol am ganiatâd os ydych am blannu coed ar safle dynodedig fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA/SSSI) neu Heneb Restredig.

Efallai y bydd angen caniatâd arall arnoch os gallai'ch cais effeithio ar rywogaeth sy'n cael ei gwarchod neu gorff dŵr.

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

Mae rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 yn dweud bod angen caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru i greu coetir newydd, neu goedwigo fel y'i gelwir yn y rheoliadau, os gallai gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd. Pwrpas hyn yw gwneud yn siŵr bod asesiad amgylcheddol yn cael ei gynnal, os oes angen, o'r cynllun plannu. Mae'r rheoliadau'n pennu trothwyon ac o beidio â'u croesi, ni fydd gan y gwaith plannu fel arfer effaith arwyddocaol ond cyfrifoldeb perchennog y tir yw cael caniatâd ffurfiol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) os oes ei angen.

Y ffordd hawsaf o wneud yn siŵr eich bod yn cael caniatâd os oes ei angen yw gofyn i CNC gynnig eu barn am y cynnig. I hwyluso'r broses, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi gwybod i CNC am bob ffurflen Mynegi Diddordeb sy'n cael ei dewis. Gallai'r CNC wedyn gysylltu â chi neu'ch asiant neu'ch cynlluniwr rheoli i ofyn am fwy o wybodaeth cyn rhoi barn ffurfiol. Wnawn ni ddim cymeradwyo cynllun tan y bydd CNC wedi cynnal proses sgrinio'r EIA

Er mwyn gwneud yn siŵr bod arian y RhDG yn cael ei reoli'n effeithiol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl ichi baratoi cynllun rheoli Creu Coetir a'i gyflwyno i ddilysydd y GWC gan roi digon o amser ichi blannu'r coed yn y tymor plannu nesaf. Ar gyfer y rownd Mynegi Diddordeb hon, bydd y llythyr dewis yn nodi'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynllun.

Cyflwyno'ch cynllun rheoli Creu Coetir a dogfennau ategol

Rhaid cyflwyno'ch cynllun rheoli Creu Coetir, y map digidol wedi'i farcio ac unrhyw ddogfennau ategol i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad a nodir ar lythyr eich dewis trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.

Asesu'ch cynllun rheoli Creu Coetir

Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn asesu'ch cynllun rheoli Creu Coetir. Rhaid i'r cynllun:-

- Gydydffurfio â Safonau Goedwigaeth y DU - <http://www.forestry.gov.uk/ukfs>.
- Rhoi gwerth ein harian inni
- Cadw at reolau'r Cynllun Coetiroedd Glastir

Os na fydd eich cynllun rheoli Creu Coetir yn cydydffurfio â'r gofynion hyn, bydd y dilysydd yn ei ddychwelyd i'r cynlluniwr rheoli nes ei fod yn cydydffurfio.

Cynnig Contract

Os caiff eich cynllun rheoli Creu Coetir ei gymeradwyo, byddwn yn rhoi gwybod ichi gan gynnig contract Creu Coetir Glastir ichi. Bydd Llywodraeth Cymru'n anfon copi papur o'ch contract atoch fydd yn cynnwys yr holl amodau a thelerau a map o'r contract. Bydd gofyn arwyddo'r ffurflen dderbyn, cael tyst i'w llofnodi a'i dychwelyd o fewn 14 diwrnod ar ôl dyddiad cynnig y contract ichi. Byddwn yn gwrthod pob ffurflen dderbyn fydd yn ein cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn ac yn tynnu'r cynnig o gontract Creu Coetir yn ôl.

Os byddwch yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'ch cais neu os na fyddwch yn dychwelyd y contract â'ch llofnod mewn pryd, ni fyddwch yn cael gwneud cais am grant Creu Coetir Glastir am ddwy flynedd.

Os byddwch yn tynnu'n ôl o'r contract cyn dyddiad ola'r contract, sef fel arfer 12 mlynedd ar ôl y flwyddyn pan gafodd y gwaith cyfalaf ei gwblhau, bydd yn rhaid ichi ad-dalu'r holl arian rydych wedi'i gael o dan gontract Creu Coetir Glastir, gyda'r llog. Yn ogystal, ni fyddwch yn cael gwneud cais am ddwy flwyddyn.

Dechrau ar y Gwaith

Os gwelir eich bod wedi dechrau ar y gwaith cyn ichi arwyddo contract Creu Coetir Glastir, bydd Llywodraeth Cymru naill ai'n gwrthod y gwaith sydd wedi'i ddechrau neu'n terfynu'r contract a bydd yn rhaid ichi ad-dalu unrhyw daliadau rydych wedi'u cael. Enghraifft bod gwaith wedi'i ddechrau yw plannu heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.

Hawlio Taliad

Ffioedd cynllun rheoli Creu Coetir

Pan gaiff y cynllun rheoli ei gymeradwyo, byddwn yn rhoi gwybod eich bod yn gymwys am y grant paratoi cynllun rheoli Creu Coetir. Caiff y grant ei dalu ichi a gallwch dalu'ch cynlluniwr rheoli.

Y ffi ar gyfer paratoi cynllun rheoli Creu Coetir yw £800.00.

Hawlio Taliad Gwaith Plannu Newydd

Bydd taliadau gwaith cyfalaf Creu Coetir Glastir yn rhai safonol. Ni fyddwch yn cael hawlio taliadau Gwaith Cyfalaf ar Ffurflen y Cais Sengl. I hawlio am waith cyfalaf sydd i'w orffen erbyn **31 Mawrth 2016**, rhaid hawlio ar ffurflen hawlio Gwaith Cyfalaf Creu Coetir Glastir trwy RPW Ar-lein erbyn **30 Ebrill 2016**. Os na fyddwch wedi hawlio'r taliad erbyn 31 Mawrth 2016, bydd gofyn ichi gyflwyno datganiad y cafodd y gwaith ei wneud cyn 31 Mawrth 2016.

Hawlio Taliad Cynnal a Thaliad Premiwm

Taliad arwynebedd yw'r taliadau hyn, a rhaid eu hawlio bob blwyddyn ar Ffurflen y Cais Sengl (SAF). Byddwch yn gymwys i hawlio'ch Taliad Cynnal a Phremiwm cyntaf, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r amodau, yn y flwyddyn galendr gyntaf ar ôl blwyddyn plannu'r coed a chael taliad. Y dyddiad cau bob blwyddyn ar gyfer cyflwyno SAF yw 15 Mai. Mae ar gael ar RPW Ar-lein.

Yn amodol ar gyhoeddi Rheoliadau Datblygu Gwledig newydd y Comisiwn Ewropeaidd ac unrhyw newidiadau i Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 o ganlyniad i newid y rheoliadau hynny, gallai'r contract Creu Coetir Glastir gael ei derfynu ddiwedd 2020 neu ar unrhyw adeg. Os gwneir hynny, ni fyddwn yn gofyn ichi ad-dalu unrhyw arian fydd wedi'i dalu ichi ond mae'n bosibl na chawn dalu rhagor ichi neu gallem wneud taliad pellach ichi ar raddfa grant wahanol am waith rydych eisoes wedi'i wneud ond nad ydych wedi cael eich talu amdano eto.

Llacio Rheolau

O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y gallem lacio'r rheolau er mwyn newid cyfnod eich contract os gallwch roi tystiolaeth ddigonol nad ydych yn gallu cwblhau'r gwaith neu ran ohono. Rhaid ichi ofyn i Lywodraeth Cymru am randdirymiad o'r fath drwy lythyr erbyn **1 Rhagfyr bob blwyddyn** neu cyn gynted ag y bydd problem yn codi sy'n eich atal rhag cynnal y gwaith plannu a chyn i'r cyfnod plannu penodedig ddod i ben. Dylech hefyd roi tystiolaeth yn gefn i'ch cais am gael llacio'r rheolau.

Adran E – Newid y Contract

Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Contract

Wrth arwyddo'ch contract Creu Coetir Glastir, rydych yn gwneud ymrwymiad am 13 blynedd (6 mlynedd yn achos y mesur Amaeth-Goedwigaeth). Os byddwch yn penderfynu gwerthu neu drosglwyddo'ch tir neu ran ohono yn ystod y cyfnod 13 neu 6 mlynedd o ymrwymiad, efallai y bydd gofyn ichi ad-dalu'r arian rydych eisoes wedi'i gael neu gael eich cosbi'n ariannol.

Os ydych am drosglwyddo contract Creu Coetir Glastir i feddiannydd newydd, rhaid cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Os ydy'r meddiannydd newydd yn dewis cymryd eich ymrwymiad Creu Coetir Glastir oddi arnoch a bod y tir yn dal yn gymwys, rhaid i'r meddiannydd newydd gadw at yr ymrwymiad ar y tir hwnnw am weddill cyfnod y contract. Dylid gofalu fod y meddiannydd newydd yn gwybod am yr ymrwymiad Creu Coetir cyn cytuno i gymryd y tir dan sylw.

Ar ôl trosglwyddo neu werthu rhan o'r tir, rhaid i unrhyw dir rydych wedi'i gadw ac sy'n dal yn rhan o'ch contract Creu Coetir Glastir gwreiddiol barhau i fodloni'r amodau o ran bod yn gymwys. Os nad yw, bydd gofyn ichi ad-dalu pob taliad a wnaed ar y tir hwnnw, ynghyd â'r llog. Os ydych yn trosglwyddo neu'n gwerthu unrhyw dir sy'n rhan o'ch contract Creu Coetir Glastir, yna rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru trwy lythyr o fewn 30 diwrnod ar ôl i hynny ddigwydd. O beidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, byddwch yn debygol o gael eich cosbi.

Os byddwch yn trosglwyddo neu'n gwerthu tir sydd o dan contract a bod Llywodraeth Cymru'n credu bod amcanion Creu Coetir Glastir wedi'u tansellio o'r herwydd, gallai derfynu'r contract ac efallai y bydd yn rhaid ichi ad-dalu pob taliad ynghyd â'r llog.

Newidiadau i'r Tir

Rhaid ichi roi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i'ch caeau o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.

Gallai'r newidiadau hynny gynnwys:

- Rhannu cae yn barhaol
- Uno caeau yn barhaol
- Newid ffiniau cae
- Newid nodweddion parhaol cae.

Hefyd, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn y terfyn o 30 diwrnod ar ôl iddo ddigwydd os ydy meddiannydd y tir gan gynnwys y perchennog neu'r tenant, yn newid.

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y newidiadau hyn ar y *Ffurflen Gais Cynnal Caeau (FM)* cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.

Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Mae Rheoliadau Ewrop yn cael eu newid o dro i dro. Bydd yn rhaid ichi gydymffurfio â'r newidiadau hynny ar ôl i Lywodraeth Cymru roi gwybod ichi amdanyn nhw.

Newidiadau i Reolau'r Cynllun

Efallai weithiau, bydd angen newid eich contract. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddarau'r amodau rheoli yn sgil ymchwil wyddonol newydd, newid rheolau'r cynllun yn sgil newidiadau i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru neu bennu cyfraddau talu newydd. Byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau yn Gwlad ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru) a lle bo gofyn, yn ysgrifennu atoch chi.

Adran F – Archwiliadau a Chofnodion

Mae Llywodraeth Cymru'n gorfod gwneud yn siŵr bod ffermwyr yn cadw at reolau Creu Coetir Glastir. Bydd yn gwneud hynny trwy archwiliadau fferm, defnyddio'r Systemau Lleoli Byd-eang a lluniau o'r awyr a chan loeren.

Archwiliadau

Bydd angen i swyddogion archwilio gymeradwyo'r Gwaith Cyfalaf ar eich daliad a chadarnhau manylion y tir a chywirdeb unrhyw ddogfennau a chofnodion perthnasol..

Gellir cynnal archwiliadau unrhyw adeg o'r flwyddyn ac archwilir yr holl ymrwymadau a rhwymedigaethau y bydd modd eu harchwilio adeg yr ymweliad. Bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff gorfodi'n gwneud eu gorau glas i beidio â tharfu arnoch yn ormodol ond mae rhai archwiliadau'n gorfod cael eu cynnal heb rybudd. Gall archwiliadau gael eu cynnal fwy nag unwaith mewn blwyddyn.

Os byddwch yn gwrthod caniatáu archwiliad neu'n rhwystro'r archwilydd neu'n peidio â rhoi cymorth rhesymol iddo, fe allech golli'ch taliad a chael eich erlyn.

Cadw Cofnodion

Rhaid ichi gadw'r holl gofnodion a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i gadarnhau eich bod wedi rhoi gwybodaeth gyflawn a chywir i ni a'ch bod wedi cadw at eich ymrwymadau.

Bydd gofyn ichi hefyd:

- Roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am eich contract Creu Coetir Glastir a hynny o fewn y cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru
- Darparu i Lywodraeth Cymru, ei phersonau â chaniatâd neu ei hasiantwyr, gofnodion, cyfrifon, derbynebaw a gwybodaeth arall gan gynnwys cyswllt â data cyfrifiadur sy'n ymwneud â'ch contract Creu Coetir Glastir. Mae gan Lywodraeth Cymru yr hawl i gymryd dogfennau neu gofnodion o'r fath i wneud copïau neu i godi darnau ohonyn nhw.

Adran G – Cosbau

Bydd ffermwyr yn cael eu cosbi pan fydd rheolau Glastir neu ofynion Gwaith Cyfalaf yn cael eu torri.

Tanddatgan

Os na fyddwch yn datgan holl dir amaethyddol eich daliad ar y Ffurflen Cais Sengl (yr holl dir rydych yn berchen arno a'r tir sydd gennych ar rent ac nid dim ond y tir sy'n dod o dan Glastir e.e. coetir/coedwigaeth, traciau, buarthau, arwynebau caled ac ati), gallai'ch taliadau Cynllun Datblygu Gwledig a Chynllun Taliad Sengl gael eu lleihau.

Gorddatgan

Os gwelir bod arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ar gyfer Glastir ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF) yn fwy na'r hyn sydd wedi'i weld mewn archwiliad, cewch eich cosbi am orddatgan. Cyfrifir y gosb gan ddefnyddio'r arwynebedd a gafodd ei ddatgan ar y SAF sy'n derbyn yr un gyfradd dalu (y cyfeirir atynt fel grwpiau cnydau).

Torri'r Contract

Bydd archwiliadau gweinyddol ac archwiliadau fferm yn cael eu cynnal i weld a ydych yn torri contract Glastir ac os gwelir eich bod, cewch wybod trwy lythyr. Lle gwelir eich bod wedi torri'r contract, byddwn yn lleihau a/neu'n atal eich taliadau gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol, mawr, parhaol ac ailadroddus oedd y tramgwydd. Gellir cosbi taliadau'r blynyddoedd blaenorol hefyd.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n credu bod y tramgwydd mor ddifrifol nad oes modd ei gywiro, gallai derfynu'ch Contract. Mewn sefyllfaoedd difrifol iawn, gallai olygu hefyd eich gwahardd rhag ymuno â chynllun Datblygu Gwledig arall am hyd at ddwy flynedd.

Rydym yn asesu tramgwyddau yn ôl safonau dilysadwy sy'n cyfateb i ymrwymadau'r cynllun. Mae matrices cosbau wedi'i lunio i benderfynu ar lefel y gosb i'w rhoi. Mae'r matrices cosbi a'r safonau dilysadwy i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru)

Cosbau'r Gwaith Cyfalaf

Os ydych yn hawlio taliadau nad ydynt seiliedig ar arwynebedd, er enghraifft gwaith cyfalaf, a bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu nad yw rhan o'r gost neu'r holl gost rydych wedi'i hawlio yn gymwys, ni chewch daliad am y costau anghymwys. Os bydd y costau anghymwys yn fwy na 10% o'r costau cymwys, tynnir swm sy'n gyfwerth â chyfanswm y costau anghymwys oddi ar eich taliad.

Os bydd hawliad ffug yn cael ei wneud, neu os na wnaiff meddianwyr y tir roi'r wybodaeth angenrheidiol, bydd gwaharddiad ar daliadau ar gyfer y flwyddyn dan sylw a bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw symiau sydd eisoes wedi'u talu y flwyddyn honno. Hefyd, byddwch yn cael eich gwahardd rhag cael cymorth o dan unrhyw gynllun Datblygu Gwledig - Amaeth-amgylcheddol a Choedwigaeth – yn ystod y flwyddyn galendr pan wnaed yr hawliad ffug a'r flwyddyn galendr ganlynol.

Torri'r safonau Trawsgydymffurfio

Eich cyfrifoldeb chi yw bodloni'r holl safonau Trawsgydymffurfio am y flwyddyn galendr lawn ar hyd oes eich Contract. Os na fyddwch yn bodloni'r Gofynion Rheoli Statudol neu'r safonau Cadw Tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da, boed yn fwriadol neu drwy esgeulustod, gallech golli'ch taliad Glastir am flwyddyn neu fwy. Wrth benderfynu o faint y caiff eich taliad ei leihau, byddwn yn ystyried pa mor fawr, difrifol, parhaol ac ailadroddus y bu'r achos o anghydymffurfio.

Adran H - Y Drefn Apelio

Mae'r broses apelio yng Nghymru yn cynnig trefn apelio annibynnol ichi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau Glastir.

Mae dau gam i'r broses apelio ffurfiol:

- Cam 1: pennaeth y Swyddfa Ranbarthol leol i adolygu'r achos
- Cam 2: Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os bydd y ffermwr yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1). Bydd y Panel Annibynnol yn gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd a fydd wedyn yn penderfynu'n derfynol ar y mater.

Daw'r broses apelio i ben pan gaiff penderfyniad y Gweinidog ei gyhoeddi. Nid oes tâl am gam cyntaf y broses ond codir tâl ar gyfer yr ail gam - £50 am wrandawriad ysgrifenedig a £100 am wrandawriad llafar. Bydd hwn yn cael ei dalu'n ôl i'r apeliwr os bydd ail gam y broses yn llwyddiannus neu'n rhannol llwyddiannus.

Rhaid ichi apelio i'ch Swyddfa Ranbarthol leol cyn pen 60 diwrnod ar ôl derbyn penderfyniad a allai effeithio ar eich taliad.

Cewch fwy o fanylion y broses apelio gan y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

Y Drefn Gwyno

Byddwn yn delio â chwynion o dan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud cwyn gan eich Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Mae croeso ichi ysgrifennu at unrhyw Aelod o'r Cynulliad am eich cwyn a hefyd at:
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,
1 Ffordd yr Hen Gae,
Pen-coed
CF35 5LJ.

Adran I – Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Prosesu Teg

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar ffurflen mynegi diddordeb Glastir neu unrhyw ddogfen arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â mynegi diddordeb mewn cynlluniau Glastir, neu wybodaeth sy'n cael ei chreu neu ei chael o ganlyniad i fynegi diddordeb. Bydd Llywodraeth Cymru ymhlith pethau eraill yn rhannu peth gwybodaeth ag asiantaethau a chyrrff cyhoeddus eraill ac yn darparu peth i'r cyhoedd ei gweld.

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu ac asesu'ch ffurflen mynegi diddordeb Creu Coetir Glastir. Fodd bynnag, caiff Llywodraeth Cymru (neu ei hasiantwyr) ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymiaidau amgylcheddol statudol.

Rhesymau dros Rannu Data Personol

Defnyddir yr wybodaeth at y dibenion canlynol yn arbennig:

- Trawsgydymffurfio a chroeswrio gwybodaeth rhwng partneriaid er mwyn sicrhau nad oes neb yn torri rheolau'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol y maent yn eu gweinyddu
- Gweinyddu ceisiadau
- Cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos y tir sy'n dod o dan y cytundebau
- Llunio adroddiadau ar ddata o wahanol ffynonellau, ar gyfer eu cyhoeddi ar dudalennau gwefan Llywodraeth Cymru
- Paratoi crynodebau ystadegol (gan sicrhau nad yw'n bosibl adnabod unigolion)
- Rhoi gwybodaeth fel bod modd gwneud penderfyniadau ynghylch newid polisïau ac ariannu
- Cysylltu â pherchnogion / defnyddwyr tir mewn argyfwng e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau
- Amddiffyn hawliau ffermwyr mewn cadwraeth tir ac i ateb ymholiadau ynghylch ariannu

- Datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, a'r heddlu, lle bo lles y cyhoedd yn gofyn am hynny
- Cyhoeddi gwybodaeth ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.
- Llywodraeth Cymru a'i hasiantwyr yn edrych ar bob caniatâd

Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Bydd yr wybodaeth yn cael ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i hymrwymiaidau a'i dyletswyddau o dan:

- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliad (EC) rhif 908/2014 y Comisiwn

Gall aelod o'r cyhoedd felly ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau'r wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i geisiadau o'r fath. Bob tro, wrth wneud, bydd yn cadw at y canllawiau yng Nghod Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae copi o'r Cod i'w weld ar y rhyngwyd yn: www.llyw.cymru/cyhoeddiadau

Yn ôl Rheoliad (EC) rhif 908/2014 y Comisiwn, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi faint sy'n cael ei dalu i fuddiolwyr y PAC (hawlwyr). Cyhoeddir taliadau pawb fydd wedi cael mwy na €1,250 mewn unrhyw flwyddyn. Cyhoeddir yr wybodaeth ar 30 Ebrill bob blwyddyn ar wefan chwladwy a bydd yn cynnwys enw'r busnes a thref agosaf y sawl fydd wedi cael grant gyda manylion y symiau a'r cynlluniau y talwyd y grantiau trwyddynt. Ni chyhoeddir manylion y rheini fydd wedi cael llai na €1,250 mewn blwyddyn. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA: <http://cap-payments.defra.gov.uk/>

Hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Dyma rai enghreifftiau o'r hawliau hyn, er nad yw hon yn rhestr gyflawn:

- Bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanynt yn cael ei phrosesu'n deg a chyfreithlon.
- Yr hawl i gael copïau o'r wybodaeth bersonol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru wrthod gwneud hynny weithiau.
- Yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro Llywodraeth Cymru rhag prosesu gwybodaeth bersonol os byddai gwneud hynny'n gwneud niwed neu'n achosi gofid.
- Yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir.

Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar Ddeddf Diogelu Data 1998, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r Ddeddf.

Ni fydd yr wybodaeth yn mynd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd oni bai bod rheswm da dros wneud hynny (e.e. pe bai clefyd yn mynd ar led). Os bydd rheswm da, bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn dal i gael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Gofyn am Ragor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynghylch yr wybodaeth fydd yn cael ei chasglu a sut y bydd yn cael ei defnyddio, os oes gennych bryderon ynghylch cywirdeb eich data personol neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, cysylltwch â Chanolfan Gyswilt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.

Adran J – Manylion Cysylltu

Mae yna wybodaeth bwysig ar wefan Llywodraeth Cymru
www.llyw.cymru/amgylcheddachefngwlad ac yn Gwlad, y cylchgrawn deufisol
www.gwladarlein.org.

Dyma'r manylion cysylltu:

Y GANOLFAN GYSWLLT I GWSMERIAID

Taliadau Gwledig Cymru

PO Box 1081

Caerdydd

CF11 1SU

Ffôn: 0300 062 5004

Ffacs: 01286 662193

E-bost: rpwonline@wales.gsi.gov.uk

Cysylltiadau defnyddiol eraill

Ar gyfer tir sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig:

CYFOETH NATURIOL CYMRU

d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000

Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Llun–Gwener, 8am - 6pm)

Ymholiadau cyffredinol: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Ar gyfer Henebion Rhestredig / parciau a gerddi cofrestredig:

CADW

Llywodraeth Cymru

Plas Caeriw

Uned 5/7 Cefn Coed

Parc Nantgarw

Caerdydd

CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001
E-bost: Cadw@Wales.gsi.gov.uk

Ar gyfer henebion sydd heb eu rhestru a nodweddion hanesyddol:

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-
Powys**

41 Broad Street
Y Trallwng
Powys
SY21 7RR
Ffôn: 01938 553670
Ffacs: 01938 552179
E-bost: trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol
Morgannwg-Gwent**

Heathfield House
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
Ffacs: 01792 474469
E-bost: enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor,
Gwynedd, LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
Ffacs: 01248 370925
E-bost: gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed

Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,
Sir Gaerfyrddin, SA19 6AF
Ffôn: 01558 823121
Ffacs: 01558 823133
E-bost: info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk